

CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, ar 11eg Ebrill 2016

Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul, on 11th April 2016

Yn Bresennol/Present:

Cyng/Cllrs Keith Evans, Eileen Curry, Douglas Davies, Roy Davies, Terry Griffiths, Andrew Howell, Gethin Jones (cyrhaeddodd am / arrived at 20.20), Carolyn Reed-Rees, Abby Reid, Beth Davies a Chyng Sir/and County Cllr Peter Davies

1 Ymweliad/Visit

Roedd PCSO Siân Davies yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn adrodd am y digwyddiadau a welwyd yn Llandysul a'r cyffiniau dros y mis diwethaf.

Cynhaliwyd Ymgyrch Genedlaethol Gwregysau Diogelwch ar draws Ceredigion gyfan.

Bu dau achos o ddifrod Troseddol ar Ystad y Ffawydd

Bu un lladradd o siop Spar Llandysul ac un o Stryd Lincoln Llandysul

Bu un achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol ym maes parcio y Ganolfan Hamdden.

PCSO Sian Davies was present at the meeting reporting on recent incidents in and around Llandysul over the past month.

The National Seatbelt Campaign had been undertaken across the whole of Ceredigion.

Two incidents of Criminal damage had occurred on the Beeches Estate

One incident of theft from Spar Llandysul and one from Lincoln Street Llandysul

One incident of antisocial behaviour in the car park of the Leisure Centre.

Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report

Adroddodd y Cadeirydd y bu farw un o gyn Gynghorwyr y Cyngor yn ddiweddar, Mrs Megan Dodd, ac estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor i'r teulu. Cafwyd munud o dawelwch er parch iddi.

Llongyfarchwyd PCSO Siân Davies, a oedd wedi dyweddio yn ddiweddar.

Roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yn y digwyddiadau canlynol dros y mis diwethaf:-

24/03/16 – Mynychu digwyddiad a gynhaliwyd gan CAVO yn Neuadd Tysul.

Cyngerd Brethyn Cartref a drefnwyd gan y Ganolfan Ddŵr ac a gefnogwyd yn ariannol gan y Cyngor – gwnaethpwyd elw o £1500 ar y noson. Llongyfarchodd bawb a drefnodd y digwyddiad a diolchodd i bawb am fynychu.

The Chairman reported that a former Cllr, Mrs Megan Dodd had recently past away and the Councils condolences were extended to the family. A minute silence was undertaken in respect.

Congratulations were extended to PCSO Sian Davies who recently had become engaged.

The Chairman had represented the Community Council at the following events in the past month:-

24/03/16 – Attended an event by CAVO held in Tysul Hall.

Brethyn Cartref Concert organised by the Aqua Centre and financially supported by the Council-£1500 profit was made in the evening. He congratulated all involved in organising the event and thanked all for attending.

- 1 **Ymddiheuriadau/Apologies:** Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb wrth Gynghorwyr /Apologies was received from Cllrs Tom Cowcher, Wyn Evans ac/and Aled Jones. Roedd Cynghorydd Gethin Jones wedi ymddiheuro ymlaen llaw na fyddai modd iddo fod yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod. / Councillor Gethin Jones had apologised in advance for his inability to be present for the commencement of business.
- 2 **Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest:** Datgelwyd budd gan Gynghorwyr Beth Davies, Eileen Curry a Chyng Sir Peter Davies mewn perthynas â cheisiadau ariannol gan Gymdeithas Ysgol Tre-groes a'r Cylch a chan Gyng Beth Davies mewn perthynas â Chanolfan Ddŵr Llandysul. / Declerations of interest were made by Cllrs Beth Davies, Eileen Curry and County Cllr Peter Davies with regards to funding applications by Cymdeithas Ysgol Tregroes a'r Cylch and Cllr Beth Davies with regards to the Llandysul Aqua Centre.
- 3 **Cofnodion/Minutes:** Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2016 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd /Minutes of monthly meeting held on 14 March 2016 were approved and signed by the Chair.

Materion yn Codi:-

Goleuadau Nadolig Nid oedd Derwen Lighting wedi ymateb eto gan nodi'r gost o ddisodli'r ddolen goll gyda Goleuadau Nadolig. Esboniodd Cyng Terry Griffiths bod yr is-bwyllgor yn aros am ddogfennaeth gan Gwmni Arbenigol ynghylch cynigion i wneud gwaith posibl i adnewyddu'r goleuadau Nadolig yn y dyfodol.

Trwsio a chynnal a chadw – Esboniodd y clerc y bu'n rhaid i John's Groundworks newid enw ei gwmni gan ei fod wedi cael anhawster wrth sicrhau yswiriant atebolrwydd cyhoeddus wrth ddefnyddio'r enw Groundworks. Nodwyd hyn.

Materion y mae Angen gwneud Penderfyniad Amdanynt

4) Ceisiadau Ariannol:-

Canolfan Ddŵr Llandysul – gofynnwyd am £1000 er mwyn cynnal digwyddiad codi arian, a fyddai'n codi ymwybyddiaeth o'r gweithgareddau a gynhelir yn y Ganolfan Ddŵr. Penderfynwyd rhoi £750 ar ôl cael cyfrif Incwm a Gwariant ar ôl y digwyddiad, ac awgrymwyd y dylent dalu am y swm a oedd yn weddill y gofynnwyd amdano trwy ffynonellau noddi eraill.

Cymdeithas Ysgol Tre-groes a'r Cylch – gofynnwyd am £900 er mwyn adfer ac ailosod eurwaith ar ddau blac yn hen ysgol y pentref er mwyn cofio am Christmas Evans. Gan nad yw'r ysgol yn eiddo i'r Pwyllgor eto, penderfynwyd rhoi £300 tuag at gwblhau'r gwaith o adfer y llechen er mwyn cofio'r canmlwyddiant.

5) Materion i'w trafod

Parc Coffa/Lle chwarae i blant – esboniodd Cyng Keith Evans ei fod yn aros am ddau ddyfynbris pellach er mwyn adeiladu'r wal a fyddai'n dal y plac. Yn ogystal, roedd ganddo broflen o faint go iawn y plac, a gofynnodd i'r Cyngorwyr sicrhau bod yr arysgrifau yn gywir. Penderfynwyd y dylai Cyng Keith Evans symud yn ei flaen gyda'r broses o archebu'r plac oherwydd y byddai'n cymryd hyd at ddau fis i'r wenithfaen gyrraedd wrth y cyflenwyr. Rhoddwyd awdurdod dirprwyedig i'r Cadeirydd, trwy ymgynghori gyda'r Is-Gadeirydd, i symud ymlaen gyda'r gwaith adeiladu angenrheidiol ar ôl cael dyfynbrisiau boddhaol. Diolchodd Cyng

Matters Arising:-

Christmas Lights Derwen Lighting had not responded as yet to what the cost would be in replacing the missing link with the Christmas Lighting. Cllr Terry Griffiths explained that the sub committee were awaiting documentation from a Specialist Company regarding the future proposals for the potential renewal of the Christmas lights.

Repair and maintenance – The clerk explained that John's Groundworks had to change the name of his company as he had difficulty getting public liability insurance with the name Groundworks. This was noted.

Matters Requiring Decisions

4) Funding Applications:-

Llandysul Aqua Centre – £1000 was requested in order to hold a fundraising event to raise awareness of the activities within the Aqua Centre. It was decided to donate £750 on receipt of an Income and Expenditure account following the event and it was suggested that they fund the remainder of the requested money through other sponsorship avenues. **Cymdeithas Ysgol Tregroes a'r Cylch** - £900 was requested in order to restore and re gift two plaques in the old village school to commemorate Christmas Evans. It was decided, as the school was not yet in the ownership of the Committee to donate £300 towards the completion of the restoration of the tablet to mark the centenary.

5) Matters for discussion

Memorial Park/Childrens play area – Cllr Keith Evans explained that he was expecting two further quotes to build the wall to hold the plaque. He also had a proof and actual size of what the plaque would look like and asked Cllrs to check the inscriptions for accuracy. It was decided that Cllr Keith Evans carry on with ordering of the plaque as the granite would take up to two months to arrive from the suppliers. The Chair was given delegated authority in consultation with the Vice Chairman to proceed with the necessary building works on receipt of satisfactory quotations. Cllr Douglas Davies thanked Cllrs Keith Evans and Terry Griffiths for all their hard work in taking the scheme forward and this was endorsed by Cllr Roy Davies.

Children's Play area

Douglas Davies i Gynghorwyr Keith Evans a Terry Griffiths am eu holl waith caled wrth symud y cynllun yn ei flaen, ac ategwyd hyn gan Gyng Roy Davies.

Lle chwarae i blant

Diolchodd y Cadeirydd i Gynghorydd Abby Reid am ei hymdrechion wrth archwilio'r lle chwarae. Esboniodd ei bod wedi gofyn am gopi caled o fanylebion yr offer chwarae. Nid oedd y byllt wedi cael eu gosod eto, ond mae'r offer yn hollol ddiogel.

Materion Wardiau

Ffyrdd Mwdlyd – adroddodd Cyng Douglas Davies unwaith eto bod y ffordd yng Nghapel Dewi yn llawn mwd yn dilyn yr holl law a gawsom, ac na chafwyd unrhyw ymateb gan y Cyngor Sir. Adroddodd Cyng Reed –Rees bod hyn yn wir gyda'r cais ar gyfer ffordd Pren-gwyn / Maesymeillion hefyd. Penderfynwyd y byddai'r clerwr yn cysylltu â'r Cyngor Sir eto.

Ysbwriel – Roedd yr holl Gynghorwyr wedi sylwi bod cryn dipyn o ysbwriel yn yr ardal. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir gyda manylion y lleoliadau.

Eisteddfod – Adroddodd y clerwr ei bod wedi cael galwad ffôn o Lanbedr Pont Steffan yn esbonio bod ganddynt ddi-ddordeb mewn gwahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i'r Ardal. Lleolir un o'r safleoedd a ffeirir ganddynt yn ardal Cyngor Cymuned Llandysul.

Maes Parcio – Esboniodd y Cadeirydd bod Marion Bryant wedi cysylltu er mwyn diolch i'r Cyngor Cymuned am eu cymorth ariannol ar gyfer y Parc Coffa a hefyd, er mwyn adrodd ei bod wedi ysgrifennu at y Cyngor Sir eto ynghylch y maes parcio a'r codiad rhent. Nid oedd wedi cael ateb. Fe'i hysbyswyd y dylai gysylltu â'r Prif Weithredwr er mwyn gofyn iddi ymyrryd, a chan gynnwys copïau o'r ohebiaeth yr oedd wedi ei hanfon hyd yn hyn. Penderfynwyd y dylai'r clerwr ysgrifennu at y Prif Weithredwr hefyd er mwyn cefnogi'r Parc Coffa, oherwydd y bu hwn yn un o'r materion a drafodwyd ac a amlygwyd yn ystod ein cyfarfod gydag Arweinydd a Phrif Weithredwr y Cyngor Sir yn ddiweddar.

The Chairman thanked Cllrs Abby Reid for her efforts with inspecting the play area. She explained that she had asked for a copy of the play equipment specifications. The bolts had not yet been fitted but the equipment was perfectly safe.

Ward Matters

Muddy Roads - Cllr Douglas Davies reported again that the road in Capel Dewi was full of mud following all the rain that we'd been having and that no response had been forthcoming from the County Council. Cllr Reed –Rees reported that this was also the case with the request for the Prengwyn / Maesymeillion road. It was decided that the clerk contact the County Council again.

Litter – All Cllrs had noticed that there was a significant increase of littering in the area. It was decided to contact the County Council with details of the locations.

Eisteddfod – The clerk reported that she had received a telephone call from Lampeter explaining that they were interested in inviting the National Eisteddfod to the Area. One of their preferred sites was located within Llandysul Community Council area.

Car Park – The Chairman explained that Marion Bryant had made contact to thank the Community Council for their financial support of the Memorial Park and to also report that she had written again to the County Council regarding the car park and increase of rent. She had not received a reply. She was advised that she should contact the Chief Executive to request that she intervenes and enclosing copies of the correspondence she had sent to date. It was decided that the clerk also write to the Chief Executive to support the Memorial Park as this was one of the issues that had been discussed and highlighted in our recent meeting with the Leader and Chief Executive of the County Council.

School Closures

Letters were received from the County Council regarding the Closures of Pontsian and Llandysul Primary Schools, consulting on whether the Community Council had an interest in their future use.

It was decided to reply suggesting that consideration be given to the Llandysul Primary School site being

Cau Ysgolion

Cafwyd llythyrau gan y Cyngor Sir ynghylch Cau Ysgolion Cynradd Pont-siân a Llandysul, yn holi a oedd gan y Cyngor Cymuned ddiddordeb yn eu defnydd yn y dyfodol.

Penderfynwyd ateb trwy awgrymu y dylid ystyried y cam o neilltuo safle Ysgol Gynradd Llandysul ar gyfer darpariaeth gofal iechyd bosibl os byddai modd trefnu bod y ddwy ganolfan feddygol, y Bwrdd Iechyd ac eraill yn cydweithio er mwyn sicrhau bod modd lleoli darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol gwell yn y Dref. Mae Llandysul yn Ardal Dechrau'n Deg a byddai o fantais cael gwasanaethau megis ffisiotherapi, deintyddiaeth a chlinigau meddygol eraill yno hefyd, y byddent yn lleihau'r faich ar breswylwyr yn gorfod teithio cryn bellteroedd i gael rhai o'r gwasanaethau sylfaenol hyn yn sylweddol.

Yn ogystal, cafwyd sylwadau gan Ganolfan Deuluoedd Llandysul, yn mynegi bod ganddynt ddiddordeb mewn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y Ganolfan Integredig yn yr Ysgol Gynradd er mwyn caniatáu gwasanaethau estynedig. Byddai ein hymateb yn dwyn sylw y Cyngor Sir at y cais hwn hefyd.

Gofynnwyd hefyd pam na chafwyd unrhyw hysbysiad ynghylch safle Dyffryn Teifi. Penderfynwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i ofyn pam a hefyd, i holi am y cynlluniau hirdymor ar gyfer Dyffryn Teifi, oherwydd y byddai'r adeilad yn gwaethygu yn gyflym pan na fyddai'n cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, gan bod caeau chwarae Dyffryn Teifi wedi cael eu neilltuo yn y cynllun datblygu lleol fel safle mwynder gwyrdd, penderfynwyd gofyn pwy fyddai'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw.

6) Cydnabod derbyn rhoddion

Gwnaeth y sefydliad canlynol anfon eu hanfonebau ategol ar gyfer ceisiadau grant a gytunwyd yn flaenorol, ac awdurdodwyd y cam o'u talu

Cyngerdd Brethyn Cartref - £200 – 14/03/16
Diolchodd Cymdeithas Hanes Llandysul, y Parc

earmarked for potential healthcare provision if it was possible to get the two medical centres, the Health Board and others to work together so that better health and social care provision could be located in the Town. Llandysul is a Flying Start Area and it would also be an advantage to have services like physiotherapy, dentistry and other medical clinics which would significantly reduce the burden on residents having to travel great distances to receive some of these basic services.

Representation had also been received from the Llandysul Family Centre with an interest in taking over the Integrated Centre at the Primary School to allow enhanced services. This request would also be brought to the attention of the County Council in our response.

The question was also asked as to why no notice on the Dyffryn Teifi site had been received. It was decided to write to the County Council to ask why and to also enquire as to what the long term plans was for Dyffryn Teifi as the building would quickly deteriorate when not in use. It was also decided to ask, as the Dyffryn Teifi playing fields is earmarked in the local development plan as a green amenity area who would be responsible for the upkeep.

6) Acknowledge receipt of donation

The following organisation sent in their supporting invoices for previously agreed grant applications and were authorised for payment

Cyngerdd Brethyn Cartref - £200 – 14/03/16

Cymdeithas Hanes Llandysul, Memorial Park and Llandysul Pontyweli Ymlaen thanked the Community Council for their donations.

Correspondence

Emails – A list of all the emails sent to the clerk and forwarded to members from 14th March – 11 April 2016 was tabled.

The following were received from **Ceredigion**:- Letter was received from the Council with regards to Transfer of Trust from Ysgol Dyffryn Teifi to Ysgol Bro Teifi.

Mid Wales Fire and Rescue – Annual improvement and Strategic Plan for 2016/17 was received.

Coffa a Llandysul a Phontyweli Ymlaen i'r Cyngor Cymuned am eu rhoddion.

Gohebiaeth

Negeseuon e-bost – Cyflwynwyd rhestr o'r holl negeseuon e-bost a anfonwyd at y clerwr ac a anfonwyd ymlaen at yr aelodau rhwng 14 Mawrth ac 11 Ebrill.

Cafwyd y canlynol gan

Geredigion:- Cafwyd llythyr gan y Cyngor ynghylch Trosglwyddo'r Ymddiriedolaeth o Ysgol Dyffryn Teifi i Ysgol Bro Teifi.

Tân ac Achub Canolbarth Cymru – Cafwyd Cynllun Strategol a Gwella Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Chwarae i Gymru– Cafwyd cylchgrawn tymhorol.

Taith dros fywyd – Cafwyd cais am rodd. Roedd y clerwr wedi anfon ffurflen gais atynt.

7 Cynllunio: Cafwyd hysbysiad o Gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad a gynhelir ar 13.04.16.

Archwiliwyd y cynlluniau canlynol fel rhan o'r broses ymgynghori, a gwnaethpwyd yr arsylwadau canlynol:-

A160266 – Tir gerllaw The Curlews, Heol y Waun Maesycrugiau – adeiladu annedd fforddiadwy – dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond roedd yn dymuno dwyn sylw yr Awdurdod Cynllunio at y pryderon yn yr ardal leol, a bod cryn dipyn o wrthwynebiadau. Penderfynwyd y dylai'r clerwr ateb gan nodi hyn, gan annog y Cyngor Sir i ymgynghori gyda'r Gymuned.

Caniatâd Cynllunio

A150323 – Ysgubor yn Nhafarn Alltyrodyn, Rhydowen – Newid defnydd, o fod yn hen ysgubor i fod yn annedd.

8) Gwybodaeth Ariannol

Anfonebau:-

(i) **Llinos Jones** – Cafwyd anfoneb am y swm o £193.75 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mawrth 2016 a derbyniwyd y dylid ei thalu.

(ii) **The Greenhouse** – Cafwyd anfoneb am y

Play for Wales– Termly magazine was received.

Walk for life – A request for a donation was received. The clerk had sent them an application form.

7 Planning: Notice of the Development Control Committee Meeting to be held on 13.04.16 was received.

The following plans were inspected as part of the consultation process with the following observations:-
A160266 – Land adjacent to The Curlews, Heol y Waun Maesycrugiau – erection of affordable dwelling – no objection in principal, but wished to bring to the attention of the Planning Authority concerns in the immediate locality with a lot of objections. It was decided that the clerk reply to this effect and urge the County Council to consult with the Community.

Planning Permission

A150323 – Barn at Alltyrodyn Arms, Rhydowen – Change of use from former barn to dwelling

8) Financial Information

Invoices:-

(i) **Llinos Jones** – Invoice for £193.75 for March 2016 translation was received and passed for payment.

(ii) **The Greenhouse** – Invoice for £1025 was received for maintenance of the planted areas of King Street and entrance to swimming pool and passed for payment. It was decided that the clerk ask the Community Council contractors if they would be interested in pricing for the work.

swm o £1025 am gynnal a chadw y darnau o dir yn Stryd y Brenin ac wrth fynediad y pwll nofio a derbyniwyd y dylid ei thalu. Penderfynwyd y dylai'r clerc ofyn i gontractwyr y Cyngor Cymuned a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn rhoi pris am y gwaith.

